Department for Environment Food & Rural Affairs

# Penodi dau gyfarwyddwr anweithredol i Fwrdd Seafish

## Pecyn briffio i ymgeiswyr

Dyddiad Cau 10/04/2024

Cyfeirnod: APPT01-24

Regulated by The Commissioner for Public Appointments

disability confident LEADER

# Cynnwys


Datganiad cenhadaeth Defra .... 2

Am Seafish .... 3

Manyleb y rôl .... 4

Meini prawf hanfodol .... 5

Ymrwymiad amser a thymor yn y swydd .... 6

Y broses recriwtio .... 7

Sut i ymgeisio .... 8

Meini prawf anghymwystra .... 9

Gwrthdaro buddiannau a diwydrwydd dyladwy .... 9

Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus .... 10

Diogelu data .... 10

Atodiad A – Saith egwyddor bywyd cyhoeddus .... 11

Atodoad B – 12 Egwyddor Llywodraethi i Gyfarwyddwtr Anweithredol pob Corff Cyhoeddus .... 12

Atodoad C – Bwrdd Seafish .... 13

# Datganiad cenhadaeth Defra

Mae grŵp Defra yma i wneud ein hawyr yn burach, ein dŵr yn lanach, ein tir yn wyrddach, a'n bwyd yn fwy cynaliadwy. Ein cenhadaeth yw adfer a gwella'r amgylchedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, a gadael yr amgylchedd mewn cyflwr gwell.

Mae hyn yn bwysig am fod gwella natur a mannau gwyrdd yn gwella bywydau a bywoliaethau, gan gyfrannu at economi cryf. Mae ein lles, ein hiechyd corfforol a meddyliol, ein cariad at le a thirwedd, a'n hangen cynhenid am harddwch, parchedig ofn a rhyfeddod, i gyd wedi'u cyplysu ag amgylchedd naturiol ffyniannus.

Bydd penodi pobl o safon uchel o gefndiroedd amrywiol sydd â sgiliau, gwybodaeth a phrofiad perthnasol i'r adran ac i fyrddau'n cyrff cyhoeddus yn ein helpu i sicrhau bod ein gwaith yn fwy effeithiol, gwydn ac atebol.

### Cyfle Cyfartal

Mae gan lywodraeth y DU bolisi cyfle cyfartal. Ein nod yw hybu polisïau cyfle cyfartal lle na fydd neb yn dioddef gwahaniaethu annheg naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, nac aflonyddu, ar seiliau fel hil, lliw, tarddiad ethnig neu genedlaethol, rhyw, hunaniaeth rhywedd, statws priodasol, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, credoau crefyddol, neu oed.

### Amrywiaeth

Rydym yn estyn croeso cadarnhaol i ymgeiswyr o bob cefndir. Gwneir pob penodiad cyhoeddus yn ôl teilyngdod a hynny yn dilyn cystadleuaeth deg ac agored fel y'i rheoleiddir gan Swyddfa'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus.

### Anabledd

Rydym yn gwarantu cyfweliad i unrhyw un sydd ag anabledd ac y mae eu cais yn bodloni meini prawf gofynnol y swydd. Mae 'meini prawf gofynnol' yn golygu bod rhaid ichi ddarparu tystiolaeth ddigonol yn eich cais, gan ddangos eich bod yn bodloni'r lefel gymhwysedd sy'n ofynnol ar gyfer pob maen prawf hanfodol, yn ogystal â bodloni unrhyw un neu ragor o'r cymwysterau, y sgiliau neu'r profiad sydd eu hangen. Mae Swyddfa'r Cabinet a Defra wedi ymrwymo i gyflogaeth a datblygiad gyrfa pobl anabl. I ddangos hyn rydym yn falch o arddangos logo Arweinydd Hyderus o ran Anabledd. Mae mwy o wybodaeth am Arweinwyr Hyderus o ran Anabledd ar gael trwy glicio ar y ddolen yma. Os yw person ag anableddau yn cael ei roi dan anfantais o'i gymharu â pherson nad yw'n anabl, mae'n ddyletswydd arnom i wneud newidiadau rhesymol i'n prosesau lle bo modd. Os oes arnoch chithau angen newid er mwyn ichi allu gwneud eich cais, gweler yr adran 'Sut i ymgeisio' isod.

# Am Awdurdod y Diwydiant Pysgod Môr (Seafish)

*Rhagymadrodd*

Mae gweinyddiaethau pysgodfeydd y DU yn penodi dau aelod anweithredol o'r bwrdd ar gyfer Awdurdod y Diwydiant Pysgod Môr (Seafish) i roi cyfeiriad strategol ac arweiniad i'r sefydliad mewn ffordd sy'n cydbwyso ei flaenoriaethau â rhai'r diwydiant bwyd môr yn y DU.

*Beth yw Seafish?*

Mae Seafish yn gorff i'r DU gyfan sy'n canolbwyntio ar y diwydiant ac yn cael ei noddi ar y cyd gan:

- Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra)
- Llywodraeth Cymru
- Llywodraeth yr Alban
- Adran Amaethyddiaeth, Amgylchedd a Materion Gwledig Gogledd Iwerddon (DAERA)

Mae Seafish yn Gorff Cyhoeddus Anadrannol (NDPB) i Defra, sy'n gweithredu fel y prif noddwr ar gyfer materion sy'n ymwneud â llywodraethu corfforaethol.

Mae Seafish yn cynnal ystod eang o weithgareddau gyda'r nod o hybu'r defnydd o fwyd môr, gwella enw da'r diwydiant a helpu i gasglu data a darparu gwybodaeth, tystiolaeth a chyngor ar gyfer gwneud penderfyniadau yn y gadwyn gyflenwi. Mae'n cynnig arweiniad a gwasanaethau rheoleiddio i bob rhan o'r diwydiant bwyd môr, gan gynnwys dal a dyframaethu, proseswyr, mewnforwyr, allforwyr a dosbarthwyr bwyd môr, yn ogystal â bwytai a manwerthwyr.

Mae gan Seafish safle unigryw, anghystadleuol. Mae'n gweithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid ledled y DU i lywio drwy heriau a manteisio ar gyfleoedd. Gallwch ddarllen mwy am bwy yw Seafish a beth maen nhw'n ei wneud yn eu Cynllun Corfforaethol pum mlynedd.

*Am y bwrdd*

Gan gyfarfod bob chwarter, mae'r bwrdd yn sicrhau bod Seafish yn cael ei reoli'n briodol ac yn effeithiol trwy ddarparu arweiniad, cyfarwyddyd, cefnogaeth ac arweiniad strategol.

Ar hyn o bryd mae bwrdd Seafish yn cynnwys deg aelod anweithredol. Penodiadau ar y cyd gan y Gweinidogion yw'r holl benodiadau i'r bwrdd, a'r rheiny'n cael eu gwneud gan Gymru, Lloegr a'r Alban, ond nid Gogledd Iwerddon.

Mae'r bwrdd yn cynnwys cymysgedd o aelodau annibynnol ac aelodau o'r diwydiant, gyda Chadeirydd a Dirprwy Gadeirydd annibynnol. Mae'r swyddi rydym yn recriwtio ar eu cyfer yn swyddi 'diwydiant', ac felly maent ar agor i'r rhai sy'n gallu cynrychioli buddiannau'r diwydiant bwyd môr yn unig.

*Rhagor o wybodaeth*

I gael rhagor o wybodaeth am Seafish, ewch i wefan Seafish: http://www.seafish.org/

I gael rhagor o wybodaeth am y rôl cysylltwch â gabriella.barnard-edmunds@defra.gov.uk

# Manyleb y rôl



*Dod yn aelod anweithredol o fwrdd Seafish*

Bydd aelodau anweithredol o fwrdd Seafish:

- yn rhoi cyfeiriad ac arweiniad strategol i'r sefydliad gan gydbwyso blaenoriaethau'r diwydiant bwyd môr yn y DU gyfan
- yn gyrru perfformiad ac yn dwyn y Weithrediaeth i gyfrif yn erbyn cynlluniau strategol a chorfforaethol;
- yn sicrhau priodoldeb, rheoleidd-dra, darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yng ngwaith Seafish gan ddarparu stiwardiaeth ar gyfer yr arian cyhoeddus a ymddiriedir i'r sefydliad;
- yn sicrhau bod Seafish yn cyflawni ei ddyletswyddau statudol o fewn y fframwaith a bennir gan y Gweinidogion;
- yn meddu ar ddealltwriaeth dda o waith Seafish a'i randdeiliaid; ac
- yn gweithio'n gydweithredol ac yn meithrin perthynas gyda'r Weithrediaeth, y Llywodraeth a rhanddeiliaid allweddol eraill a chynrychioli'r sefydliad ar lefel uwch.



# Meini prawf hanfodol

**Rhaid i'r ymgeiswyr allu dangos yr holl feini prawf hanfodol a ganlyn:**

- Y gallu i gynrychioli a hybu buddiannau'r diwydiant pysgod môr;
- Gallu cydnabyddedig i adeiladu diwylliant tîm gweithredol ac anweithredol effeithiol, dod â her adeiladol a chreu consensws ynghylch atebion ymarferol o fewn y Bwrdd a'r sefydliad ehangach;
- Craffter busnes sylweddol a phrofiad o weithio gyda sefydliadau cymhleth a sbarduno newid, gan gynnwys hanes cydnabyddedig ar lefel bwrdd neu lefel gyfatebol yn y sector preifat, cyhoeddus neu wirfoddol;
- Dull cydweithredol a'r gallu i gyfrannu at drafodaethau'r Bwrdd, ac ennyn hyder y Gweinidogion, cyd-Aelodau'r Bwrdd, Cyfarwyddwyr Gweithredol, gweithwyr a rhanddeiliaid ym mhob sector.






**Arbenigedd**

Rhaid i'r ymgeiswyr llwyddiannus ar gyfer y swyddi gwag hyn hefyd allu dangos gwybodaeth ac arbenigedd mewn un o'r meysydd penodol canlynol:

- Sector prosesu pysgod graddfa fawr y DU;
- Gweithio gyda defnyddwyr, manwerthwyr a/neu wasanaeth bwyd yn niwydiant bwyd y DU.

Rhaid i'r ymgeisydd llwyddiannus gadw at egwyddorion gwasanaeth cyhoeddus Nolan a'r 12 egwyddor llywodraethu ar gyfer cyfarwyddwyr anweithredol pob corff cyhoeddus (wedi'u hatodi fel Atodiad A ac Atodiad B) a'r Cod Ymarfer i aelodau Byrddau.

# Ymrwymiad amser a thymor yn y swydd

### Telerau penodi

Mae aelodau anweithredol o'r bwrdd yn cael eu penodi ar y cyd gan Weinyddiaethau Datganoledig Cymru, Lloegr a'r Alban (ond nid Gogledd Iwerddon ar hyn o bryd).

### Cyfnod penodi

Penodir am dair blynedd fan bellaf.

Caiff y penodai ymddiswyddo unrhyw bryd drwy hysbysiad ysgrifenedig i'r Gweinidogion. Caiff y Gweinidog derfynu'r penodiad o dan amodau penodol, a fydd yn cael eu hysbysu i'r ymgeisydd llwyddiannus ar ôl ei benodi.

### Cyfarfodydd

Bydd y Bwrdd yn cyfarfod o leiaf bedair gwaith y flwyddyn.

### Tâl ac ymrwymiad amser

Mae tâl y swydd wedi’i bennu’n £5,670 y flwyddyn. Mae hyn wedi’i seilio ar ymrwymiad amser o 18 diwrnod y flwyddyn.

Telir eich ffi i'r cyfrif banc rydych chi wedi’i enwebu drwy drosglwyddiad BACS ar ddiwedd pob mis. Mae'r holl dâl sy'n ymwneud â'r penodiad yn drethadwy a defnyddir TWE mewn perthynas â threth incwm a Chyfraniadau Yswiriant Gwladol a ddidynnir yn llygad y ffynnon.

Bydd costau teithio a threuliau dilys eraill yn cael eu had-dalu'n llawn yn unol â pholisi teithio a chynhaliaeth Seafish.

### Lleoliad y swyddfa

Mae gan Seafish ddwy swyddfa, Caeredin a Grimsby. Gellir cynnal cyfarfodydd y bwrdd yn y swyddfeydd hyn neu fannau eraill yn y DU.



# Y broses recriwtio

Y dyddiad cau yw hanner dydd ar 10/04/2024. Rydym yn disgwyl creu rhestr fer erbyn 15/04/2024, a bydd cyfweliadau’r Panel ar 01/05/2024.

Mae'n hanfodol bod eich datganiad addasrwydd yn rhoi gwybodaeth lawn ond cryno sy'n berthnasol i'r penodiad, gan ddangos yn glir sut rydych chi'n bodloni pob un o'r meini prawf hanfodol.

Aelodau Panel Ymgynghorol yr Asesiad yw Rachel Muckle (Dirprwy Gyfarwyddwr y Môr a Physgodfeydd, Defra) yn gadeirydd, Mike Sheldon (Cadeirydd Seafish) a Christine Farnish yn aelod annibynnol o’r panel.

Disgwylir cynnal y cyfweliadau o bell. Darperir rhagor o fanylion am y fformat ymlaen llaw.

Cewch hawlio treuliau teithio rhesymol am deithio yn ôl ac ymlaen i'r cyfweliad (sylwch y gellir gofyn ichi gyfiawnhau costau teithio os yw Defra o'r farn bod y cais yn ormod). Rhowch wybod i Defra ymlaen llaw os ydych yn debygol o hawlio, ynghyd â'r costau bras drwy gysylltu â publicappts@defra.gov.uk a dyfynnu’r cyfeirnod: APPT .



# Sut i ymgeisio

I wneud cais, bydd angen ichi fynd i https://apply-for-public-appointment.service.gov.uk/roles a naill ai creu cyfrif neu fewngofnodi.

Ar ôl mewngofnodi i'ch cyfrif, cliciwch ar 'apply for this role' a dilynwch y cyfarwyddiadau ar y sgrin. I wneud cais, mae'n ofynnol i bob ymgeisydd ddarparu:

- Curriculum Vitae (CV)
- datganiad ategol heb fod yn fwy na 1,000 o eiriau, sy'n nodi sut rydych chi'n bodloni'r meini prawf hanfodol – gofalwch eich bod yn cyfeirio at gynnwys y ddogfen yma ac yn darparu enghreifftiau penodol
- gwybodaeth am amrywiaeth
- gwybodaeth am unrhyw fuddiannau allanol neu faterion ynglŷn â'ch enw da

Cewch gyfle hefyd i wneud cais am addasiadau rhesymol neu gais o dan y cynllun Hyderus o ran Anabledd cyn ichi gyflwyno'ch cais.

Mae'r Panel Asesu Ymgynghorol yn cadw'r hawl i ystyried ceisiadau sy'n cynnwys yr holl elfennau a restrir uchod yn unig, ac sy'n cyrraedd cyn y dyddiad cau a gyhoeddir ar gyfer ceisiadau.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y broses benodi, anfonwch neges ebost at y Tîm Penodiadau Cyhoeddus yn publicappts@defra.gov.uk

I drafod y rôl yn anffurfiol cysylltwch â linsey.neill@seafish.co.uk.

**Ar ôl eu llenwi, dylai'r ceisiadau gael eu cyflwyno ar-lein yn https://apply-for-public-appointment.service.gov.uk/roles erbyn y dyddiad cau 10/04/2024**

# Meini prawf anghymhwystra

Ni chaniateir eich ystyried ar gyfer penodiad cyhoeddus:

- os ewch chi’n fethdalwr neu os gwnewch chi drefniant gyda chredydwyr;
- os yw'ch ystâd wedi’i hatafaelu yn yr Alban neu os ymrwymwch chi i raglen trefnu dyledion o dan Ran 1 o Ddeddf Trefnu ac Atafaelu Dyledion (Yr Alban) 2002 (asp 17) fel y dyledwr neu os ydych wedi rhoi gweithred ymddiriedolaeth i gredydwyr o dan gyfraith yr Alban;
- os ydych chi wedi'ch anghymhwyso rhag gweithredu fel cyfarwyddwr cwmni o dan Ddeddf Anghymhwyso Cyfarwyddwyr Cwmni 1986;
- os ydych chi wedi'ch euogfarnu o drosedd a bod yr euogfarn heb ddarfod at ddibenion Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (p. 53);
- os byddwch yn dod yn destun gorchymyn rhyddhad dyledion neu orchymyn cyfyngiadau methdaliad;
- os na fyddwch yn datgan unrhyw wrthdaro buddiannau.

# Gwrthdaro buddiannau a diwydrwydd dyledus

Os oes gennych unrhyw fuddiannau a allai fod yn berthnasol i waith Seafish, ac a allai arwain at wrthdaro buddiannau gwirioneddol neu dybiedig pe penodid chi, rhowch y manylion yn eich cais. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am hyn ac os hoffech drafod ymhellach, cysylltwch â'r Tîm Penodiadau Cyhoeddus.

O gofio natur penodiadau cyhoeddus, mae'n bwysig bod y rhai a benodir yn aelodau o gyrff cyhoeddus yn cadw hyder y Senedd a'r cyhoedd. Os oes unrhyw faterion yn eich hanes personol neu broffesiynol a allai, pe penodid chi, gael eu camddehongli, peri embaras, neu beri i hyder y cyhoedd yn y penodiad gael ei beryglu, mae'n bwysig eich bod yn tynnu sylw'r Panel Asesu Ymgynghorol atynt gan roi manylion y mater(ion) yn eich cais. Wrth ystyried a hoffech chi ddatgan unrhyw faterion, dylech hefyd ystyried unrhyw ddatganiadau cyhoeddus a wnaethoch, gan gynnwys trwy'r cyfryngau cymdeithasol.

Fel rhan o'n gwiriadau diwydrwydd dyladwy, byddwn yn ystyried unrhyw beth yn y parth cyhoeddus sy'n gysylltiedig â'ch ymddygiad neu'ch gallu proffesiynol. Bydd hyn yn cynnwys chwilio datganiadau cyhoeddus blaenorol a’r cyfryngau cymdeithasol, blogiau, neu unrhyw wybodaeth arall sydd ar gael i'r cyhoedd. Gellir trefnu bod yr wybodaeth hon ar gael i'r Panel Asesu Ymgynghorol, ac efallai yr hoffen nhw archwilio materion gyda chi pe caech eich gwahodd i gyfweliad. Gellir rhannu'r wybodaeth gyda’r Gweinidogion hefyd.

# Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus

Mae’r penodiad hwn yn cael ei reoleiddio gan y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus, er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei wneud yn ôl teilyngdod ar ôl cystadleuaeth deg ac agored. Gellir gweld rhagor o wybodaeth am rôl y Comisiynydd a'r Cod Llywodraethu ar Benodiadau Cyhoeddus yma:

http://publicappointmentscommissioner.independent.gov.uk/

https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/578498/governance_code_on_public_appointments_16_12_2016.pdf

I gael manylion llawn y broses gwyno ar gyfer penodiadau cyhoeddus, cliciwch ar y ddolen ganlynol a fydd yn mynd â chi i wefan y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus

https://publicappointmentscommissioner.independent.gov.uk/complaints/

# Diogelu data

Mae Defra wedi ymrwymo i ddiogelu preifatrwydd a diogelwch eich gwybodaeth bersonol ac mae'n gwneud hynny yn unol â’r deddfau diogelu data gan gynnwys y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR). Bydd yr holl wybodaeth a ddarperir gennych yn cael ei defnyddio i fwrw ymlaen â'r penodiad cyhoeddus a restrir yn y pecyn gwybodaeth hwn ac yn achos monitro amrywiaeth gall gwybodaeth gael ei anonymeiddio a'i defnyddio at ddibenion monitro yn unig. I gael rhagor o wybodaeth am y ffordd rydyn ni’n casglu ac yn cadw’ch gwybodaeth, darllenwch yr Hysbysiad Preifatrwydd sydd ar gael drwy wefan Penodiadau Cyhoeddus Swyddfa’r Cabinet (https://publicappointments.cabinetoffice.gov.uk) neu gofynnwch am gopi o Hysbysiad Preifatrwydd Penodiadau Cyhoeddus Defra gan publicappts@defra.gov.uk.

# Atodiad A – Saith egwyddor bywyd cyhoeddus

### Anhunanoldeb

Ni ddylai deiliaid swyddi cyhoeddus ond gweithredu er budd y cyhoedd.

### Uniondeb

Ni ddylai deiliaid swyddi cyhoeddus eu rhoi eu hunain o dan unrhyw rwymedigaeth i bobl neu sefydliadau a allai geisio dylanwadu'n amhriodol arnynt wrth iddynt wneud eu gwaith. Ni ddylent wneud hynny er mwyn cael manteision ariannol neu unrhyw fanteision perthnasol eraill iddynt eu hunain, eu teulu neu eu ffrindiau. Rhaid iddynt ddatgan a datrys unrhyw fuddiannau a pherthynas.

### Gwrthrychedd

Rhaid i ddeiliaid swyddi cyhoeddus weithredu a gwneud penderfyniadau'n ddiduedd, yn deg ac ar sail teilyngdod, gan ddefnyddio'r dystiolaeth orau a heb wahaniaethu neu ragfarn.

### Atebolrwydd

Mae deiliaid swyddi cyhoeddus yn atebol i'r cyhoedd am eu penderfyniadau ac am yr hyn y maent yn ei wneud a rhaid iddynt ganiatáu i eraill graffu arnynt yn y modd sydd ei angen er mwyn sicrhau hynny.

### Bod yn agored

Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus weithredu a gwneud penderfyniadau mewn modd agored a thryloyw. Ni ddylai gwybodaeth gael ei chadw rhag y cyhoedd oni bai bod rhesymau clir a chyfreithlon dros wneud hynny.

### Gonestrwydd

Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus fod yn eirwir.

### Arweinyddiaeth

Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus ymddwyn yn unol â'r egwyddorion hyn. Dylent fynd ati i hyrwyddo a chefnogi'r egwyddorion hyn i'r carn a bod yn barod i herio ymddygiad gwael pryd bynnag y'i gwelir.

# Atodiad B – 12 Egwyddor Llywodraethu i Gyfarwyddwyr Anweithredol pob Corff Cyhoeddus

## 1. Arbenigedd

- Ystyriwch a gweithredwch er budd gorau eich sefydliad a'i amcanion; gan gyflawni'r canlyniadau a ddisgwylir gan yr adran sy'n noddi'ch corff, y Gweinidogion ac yn y pen draw y cyhoedd.
- Ystyriwch genhadaeth a dyletswyddau ehangach yr Ysgrifennydd Gwladol sy'n noddi'ch corff, Adran yr Ysgrifennydd Gwladol a'r Llywodraeth.
- Gofalwch gydymffurfio â dyletswyddau statudol a Dogfen Fframwaith y sefydliad gan weithredu o fewn ei bwerau.
- Arferwch ofal, sgil a diwydrwydd rhesymol wrth arfer awdurdod a barn.

## 2. Craffu a herio

- Arhoswch yn annibynnol ar y weithrediaeth i ganiatáu gwaith craffu ar y rheolwyr ac mewn cyfarfodydd cytunwch ar nodau ac amcanion a monitro'r perfformiad a'r adroddiadau ar berfformiad fel bod y cyhoedd sy'n defnyddio'ch sefydliad yn cael gwasanaeth o safon.
- Bodlonwch eich hun ar uniondeb y gwaith gosod cyllideb i gyflawni amcanion a gwybodaeth ariannol ac adroddiadau ar gyllidebau, a bod y rheolaethau ariannol a'r systemau rheoli risg yn gadarn ac yn amddiffynadwy. Bodlonwch ofynion Managing Public Money, gan gynnwys helpu'r Swyddog Cyfrifyddu i gyflawni ei ddyletswyddau i ddarparu priodolder a gwerth am arian wrth ddefnyddio cyllid cyhoeddus.
- Hyrwyddwch safonau uchel o reoli risg drwy sicrhau bod gan eich sefydliad adroddiadau risg effeithiol, rheolaethau a llywodraethiant effeithiol, arbenigedd risg a goddefiannau risg i reoli risg yn effeithiol.
- Cynrychiolwch eich sefydliad i'r adran ac i'r Gweinidogion, yn ogystal â sicrhau bod barn y Gweinidogion yn cael ei hystyried gan dîm gweithredol y sefydliad, fel y bo'n briodol.

## 3. Cefnogi

- Helpwch y bwrdd i gynllunio olyniaeth a byddwch yn barod i'ch cynnig eich hun i gael eich ailbenodi, yn ogystal â hybu'r angen am fwrdd amrywiol.
- Cymerwch ran mewn adolygiadau rheolaidd o'ch sefydliad a hybu'r rheiny, yn ogystal ag adolygiadau o effeithiolrwydd y bwrdd ei hun, gan ganolbwyntio'n benodol ar ddibenion y sefydliad a'i effeithlonrwydd wrth gyflawni'r dibenion hyn. Cymerwch ran yn y broses arfarnu, gan gynnwys hunanfyfyrio ar eich galluoedd eich hun.
- Gwrandewch yn ofalus ar y rheolwyr, gofynnwch gwestiynau priodol a'u helpu i hybu trafod mewn modd sy'n hybu diwylliant lle mae pob safbwynt yn cael ei glywed, gan gyflawni dyletswyddau a chyfrifoldebau'r Cyfarwyddwr unigol a pharchu a gwerthfawrogi arbenigedd y tîm gweithredol.
- Hyrwyddwch lwyddiant yr endid gan roi sylw i fuddiannau pob aelod a rhanddeiliad, a'r holl risgiau.

# Atodiad C – Bwrdd Seafish

| | |
|---|---|
| Mike Sheldon | Cadeirydd (aelod annibynnol) |
| Jeff Halliwell | Dirprwy Gadeirydd (aelod annibynnol) |
| Mike Mitchell | Aelod o'r diwydiant |
| Nathan de Rozarieux | Aelod o'r diwydiant |
| Linda Rosborough | Aelod annibynnol |
| Graham Black | Aelod annibynnol |
| David Brooks | Aelod annibynnol |
| Heather Jones | Aelod o'r diwydiant |
| Nigel Edwards | Aelod o'r diwydiant |
| Harry Wick | Aelod o'r diwydiant |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |

disability confident

Regulated by The Commissioner for Public Appointments

Department for Environment Food & Rural Affairs